**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 04.05.18**

## CYNGERDD Y MAER – *MAYOR'S CONCERT.*

Bu i Faer Yr Wyddgrug gynnal cyngerdd yn Theatr Clwyd nos Sul diwethaf, Ebrill 29ain. tuag at ei elusen ddewisiedig, ac fel rhan o'r cyngerdd hwnnw roedd gwobrwyo cystadleuaeth ysgrifennu darn ar y thema 'Yr hyn y mae Cymru yn ei olygu i mi' i ddisgyblion hynaf holl ysgolion cynradd Yr Wyddgrug. Y newyddion da yw fod disgybl o Ysgol Glanrafon, sef Amelie Harrison Smith wedi dod yn fuddugol yn y gystadleuaeth hon yn erbyn ysgolion eraill Yr Wyddgrug, gan ennill tlws hardd a medal iddi'i hun. Llongyfarchiadau calonnog iddi hi ac i Riwben a gynrychiolodd yr ysgol ac a enillodd fedal hardd iddo'i hun hefyd. Rydym, fel ysgol, yn hynod falch o lwyddiant y ddau ddisgybl yma.

*The Mayor of Mold organised a concert at Theatr Clwyd last Sunday evening, April 29th. to raise money towards his chosen charity, and as part of the event, there was a competition for all of the Mold schools to write a short piece on the theme of 'What Wales means to me'. The good news is that a pupil from Ysgol Glanrafon, namely Amelie Harrison Smith was the overall winner from all of the primary schools in Mold, and by doing so, won a lovely trophy and a medal. Many congratulations to her and Riwben who also represented the school and won a medal for himself. We, as a school, are very proud of these pupils' achievement.*

## GWIBDAITH I GROUNDWORK *TRIP.*

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 eu hunain yn fawr iawn pan aethant ar wibdaith yn gysylltiedig â'u thema ar Y Celtiaid, i Groundworks ddydd Llun a dydd Mawrth yr wythnos hon. Bu'r trip yn fodd i ehangu eu dealltwriaeth o'r cyfnod hwnnw gan iddynt gael profiad uniongyrchol o fywyd fel ag yr oedd yn y cyfnod hwnnw.

*Years 3 and 4 pupils very much enjoyed themselves when they went on an educational outing based on the class theme of the Celts, to Groundworks, on Monday and Tuesday this week. The trip was a means of developing their understanding of that era as they had hands on experiences of life during Celtic times.*

## PROFION LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL – *NATIONAL LITERACY AND NUMERACY TESTS.*

Rhaid canmol disgyblion Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6 am y modd y maent wedi mynd i'r afael â'r profion cenedlaethol hyn yn ystod yr wythnos hon. Bydd un diwrnod o brofion eto i Flynyddoedd 3,4,5, a 6 a bydd y cyfan yn gorffen ddydd Mercher nesaf. Byddwch yn derbyn crynodeb o'r canlyniadau ar ddiwedd y tymor, unwaith y byddant wedi'u prosesu yn genedlaethol. Fe'ch hatgoffir mai dim ond un dull o asesu'r disgyblion yw profion o'r fath.

*The Years 2,3,4,5 and 6 pupils are to be praised for the mature way that they have dealt with the national tests during this week. There is one more day of tests left for Years 3,4,5 and 6 pupils and they will finish next Wednesday. You will receive a summary of the results at the end of the term, once they have been processed nationally. You are reminded that these tests are only one method of assessing pupils.*

## GŴYL FAI – *MAY DAY.*

Fe'ch hatgoffir na fydd ysgol ddydd Llun yma, Mai 7fed. am ei bod yn Ŵyl y Banc, a bydd ysgol eto i bawb ddydd Mawrth, Mai 8fed.

*You are reminded that there will be no school this coming Monday, May 7th., as it's a Bank holiday, and there will be school for everyone again on Tuesday, May 8th.*

## FFRINDIAU GLANRAFON – *FRIENDS OF GLANRAFON.*

Gofynwyd i mi eich hysbysu bod pwyllgor Ffrindiau Glanrafon yn trefnu Helfa Drysor ar droed i deuluoedd o gwmpas Yr Wyddgrug yn ystod mis Mai. Y tâl cystadlu fydd £5 y teulu a daw manylion pellach i chi yr wythnos nesaf. Bydd raffl werthfawr ar gyfer pawb fydd yn anfon eu ffurflen gystadlu i mewn.

*I have been asked to inform you that the Friends of Glanrafon committee are organising a walking Treasure Hunt for families/groups around Mold during this month. The entry fee is £5 per family and further details will be sent to you next week. A valuable raffle will be drawn with the names of all the application forms.*

## DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

| | |
|---|---|
| **07.05.18** | Gwyliau undydd – Gŵyl Fai – *May Day Bank holiday.* |
| **08.05.18** | 8-8.45 a.m. – Clwb Jiwdo – *Judo Club.* |
| **09.05.18** | Bl/*Yrs*. 3,4,5 a 6 – Prawf Ymresymu Rhifedd – *Numeracy Reasoning test.* |
| **10.05.18** | Clwb Rownderi yn dechrau i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 – *Rounders Club to start for Years 5 and 6 pupils* – 3.15 – 4.15 p.m. |